Ysgol Edern
Lôn Rhos,
Edern,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 8YW

01758 720272
llan.williams@edern.ysgoliongwynedd.cymru
www.ysgoledern.org
@YsgolEdern
/YsgolEdern

# Ysgol Eco

24.05.24

Hanner tymor arall wedi fflio heibio! Rydym wedi cael 7 wythnos brysur a dyrys arall yma yn Ysgol Edern.
Mae pawb wedi gweithio yn andros o galed yn blant, rhieni a staff - mae pawb yn barod am egwyl haeddiannol!



Dyma'r criw fu'n cystadlu yng Ngala Nofio Canolfan Byw'n Iach Dwyfor eleni. Roedd y tîm yn cystadlu yn y gystadleuaeth i ysgolion o dan 80 o blant.
Serch yr holl salwch, absenoldebau a pheidio cael tîm llawn, llwyddodd y criw yma i ddod yn gyntaf! Llongyfarchiadau mawr iddynt!



Bu Sioned o gwmni 'Mwydro' draw at ddosbarth Porth Ysgaden i wneud GIF's. Roedd hyn yn ran o waith ar hyrwyddo enwau lleoedd. Ewch draw i'r cyfryngau cymdeithasol i chwilio am ein GIF's - chwiliwch am 'Ysgol Edern' yn y bar chwilio!

Braf oedd gweld Capel Ceidio yn llawn eto ar gyfer Eisteddfod Ceidio. Diolch o galon i'r holl drefnwyr, ac i'r holl blant aeth draw i gystadlu! Llongyfarchiadau i bob un. Dyma lun o'r criw aeth i'r Eisteddfod o'r Ysgol.



Cofiwch y gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgol trwy ein gwefan, a'n gwefannau cymdeithasol. Dyma ambell i ddyddiad pwysig ar gyfer yr hanner tymor nesaf!
Cliciwch yma i weld y calendr llawn.

| | |
|---|---|
| **22/05/24** | **Platiad efo'r Plantos** |
| **23/05/24** | **Paid Cyffwrdd Dweud** |
| **27-31/05/24** | **Hanner Tymor** |
| **03-06/06/24** | **Ymweliad Glan-llyn Blwyddyn 3 a 4** |
| **06/06/24** | **Diwrnod Athletau Bl. 3 a 4** |
| **10/06/24** | **Diwrnod Pontio** |
| **13/06/24** | **Diwrnod Athletau Bl. 5 a 6** |
| **14/06/24** | **Diwrnod HMS** |

*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*

# YMWELIADAU AC YMWELWYR

## Llangrannog

Aeth blwyddyn 5 i Langrannog ddechrau mis Mai. Er y tywydd gwael (ofnadwy!) cafodd pawb amser wrth eu boddau - gan gynnwys Mrs Lloyd a Mr Williams. Bu pawb yn gwneud pob math o bethau - o sgîo i reidio ceffylau! Braf oedd cael mynd a chymysgu gyda plant o ysgolion eraill, a gwneud llwyth o ffrindiau newydd.
Un o'r uchafbwyntiau dw i'n siwr oedd gweld Mrs Lloyd a Mr Williams yn fflio ar y tobogan! Diolch i bawb am yr hwyl a sbri - ewch draw i'r wefan i weld mwy o luniau o'r trip!












## Platiad efo'r Plantos

Mae hi wedi bod yn braf gallu cynnal dwy sesiwn Platiad efo'r Plantos dros yr hanner tymor yma! Mae pawb wrth eu boddau yn sgwrsio a hel straeon, a braf ydy cael dod i weld wynebau newydd. Rydym wedi bod yn cael ffrindiau o ochrau Gaernarfon, oedd yn gyn-ddisgyblion!



## Endaf

Mae Endaf wedi bod acw yn gweithio gyda dosbarth Rhosgor dros yr wythnosau diwethaf. Maent wedi bod wrthi'n ddiwyd mewn gweithdy 'DJio', a cafodd pawb ddisgo mawr, a gwrando ar waith y dosbarth. Da iawn nhw! Ewch ar SeeSaw i wrando ar waith pawb!





*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*

# wythnos awyr agored

I ddathlu wythnos awyr agored, bu i'r Cyngor Eco fynd ati i lunio wythnos o weithgareddau ar ein cyfer. Cawsom ddiwrnod o weithgareddau yn ein grwpiau teulu, diwrnod o chwynu, garddio a thwtio o amgylch yr ysgol, taith gerdded i Bryn Gwydd a phicnic ar y traeth ar ôl y wers nofio.
Cawsom dywydd gwych, a roedd pawb wrthi yn ddiwyd, a phawb wedi cael llond trol o hwyl. Diolch o galon i bawb am eu rhoddion o blanhigion a nwyddau garddio, a diolch arbennig i Stephen John ac Elen am ddod draw i fynd a'r holl chwyn, ac i CK Tools am y rhodd o adnoddau garddio.
Yn ystod yr wythnos bu i'r Cynghorydd a'n Llywodraethwr, Mr Gareth Jones ddod draw i'n gweld, a chael sgwrs gyda'r Cyngor Eco ar yr hyn roeddent wedi ei drefnu.













ECO



Llwyddiant ysgubol i'r Cyngor Eco yr wythnos diwethaf, wrth iddynt lwyddo i ennill y wobr ansawdd aur 'Eco-Sgolion'. Da iawn chi, a diolch i bawb am eu gwaith caled! Mae angen polyn fflag newydd er mwyn dal y fflag eeeenfawr dderbynwyd!

Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ar ddydd Llun, 3ydd Mehefin. Mwynhewch eich gwyliau haeddiannol!

Diolch yn fawr,
**Ilan Williams**
(Pennaeth Mewn Gofal)

*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*